

BIO WYD DOR AU

PROSPECTWS

Y Coleg Gwyddoniaeth

100
1920-2020



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

AR Y CLAWR

Bioflociau: adeiladu ar gyfer natur,
'Gwella dealltwriaeth wyddonol trwy
gydweithredu creadigol.'

Gan Ruth Callaway, Adran y Biowyddorau,
Y Coleg Gwyddoniaeth, mewn cydweithrediad â
Phrosiect SEACAMS2 a Morlyn Llanw
Bae Abertawe Plc.

BETH YW YMCHWIL FEL CELF?

Mae cystadleuaeth Ymchwil fel Celf
Prifysgol Abertawe yn annog ymchwilwyr i
ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd yn eu
hymchwil trwy ddelweddau trawiadol a
thestun cyfareddol. Mae'r gystadleuaeth
flynyddol wedi denu mwy na 500 o
gynigion syfrdanol ers ei sefydlu yn 2009,
gan gynrychioli pob coleg academaidd, a
chyrhaedd 50 miliwn o bobl ar draws y byd.



CYNNWYS

CYRSIAU'R
BIOWYDDORAU

04

CYFLEUSTERAU

05

CAMPWS PARC
SINGLETON

06

TEITHIAU
MAES

08

GWYBODAETH
AM Y CYRSIAU

11

PROFFILIAU
MYFYRWYR

16

GYRFAOEDD A
CHYFLOGADWYEDD

20

PROFFILIAU
CYN-FYFYRWYR

22

YMCHWIL
Y STAFF

24

DYDDIADAU
PWYSIG

29

MYFYRWYR
RHYNGWLADOL

30

YMWELD AG
ABERTAWE

31

DEALL Y
TERMAU

32

CROESO I'R COLEG GWYDDONIAETH

Mae'n wych eich bod chi'n ystyried Prifysgol Abertawe fel y cam allweddol nesaf yn eich dyfodol a'ch gyrfa. Fel Pennaeth y Coleg Gwyddoniaeth, roeddwn am ddweud wrthyh mor bwysig yw pob aelod o'n cymuned: os ymunwch â ni, cewch chwarae rhan bwysig yn ein gwaith sy'n trawsnewid y byd.

Rydym yn falch o groesawu pobl i'n 'teulu' o lawer o gefndiroedd ac o bob cwr o'r byd. Lle ceir amrywiaeth, bydd gwyddoniaeth yn camu ymlaen, ac anogwn lawer o safbwyntiau, lleisiau a chalonnau i ymwneud â'n gweithgareddau wrth i ni ddod yn un o'r canolfannau gwyddoniaeth mwyaf creadigol, croesawus a chydabyddedig ar y llwyfan byd-eang.

Tra byddwch gyda ni, gwnawn bopeth a allwn i'ch helpu i ffynnu a llwyddo; gan roi i chi wybodaeth, sgiliau a meddylfryd fydd yn arwain at yrfa werthfawr a bywyd da. Byddwch yn cyfarfod â phobl - yn gyd-fyfyrwyr ac yn staff - a fydd yn cael effaith gydol oes

arnoch a chewch eich annog i rannu eich gwybodaeth gydag eraill hefyd.

Yn y llyfryn hwn, cewch wybodaeth benodol am eich pwnc arbenigol. Fe welwch y cewch eich dysgu gan ymchwilwyr ac athrawon sy'n arweinwyr byd yn eu maes ac sy'n ymroddedig i'ch addysg. Cewch ddarllen am yr ystod o swyddi a gyrfaedd y bydd eich addysg yn agor drws iddynt, a llwyddiannau nodedig ein myfyrwyr wrth ddewis dyfodol sy'n iawn iddyn nhw. Rwy'n sicr y bydd hyn i gyd yn ddefnyddiol i chi ond cofiwch ymweld â ni i gael rhyw deimlad o'r cyffro a'r rhagoriaeth sy'n rhan o'n DNA.



Yr Athro Matt Jones,
Pennaeth y Coleg
Gwyddoniaeth

UN O'R 10

UCHAF

YN Y DEYRNAS UNEDIG O RAN

BODLONRWYDD

MYFYRWYR

(Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2017)

CYRSIAU'R BIOWYDDORAU

C100

BSc GWYDDORAU BIOLEGOL

(gydag arbenigedd wedi'i ohirio)

C101

BSc BIOLEG

(gyda Blwyddyn Sylfaen Integredig)

C104

BSc BIOLEG

C105

BSc GWYDDORAU BIOLEGOL GYDA BLWYDDYN DRAMOR

(gyda dewis wedi'i ohirio)

C106

BSc BIOLEG GYDA BLWYDDYN DRAMOR

C152

BSc BIOLEG GYDA BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT

C160

BSc BIOLEG FOROL

C107

BSc BIOLEG FOROL GYDA BLWYDDYN DRAMOR

C424

BSc BIOLEG FOROL GYDA BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT

C300

BSc SŴOLEG

C301

BSc SŴOLEG GYDA BLWYDDYN DRAMOR

C384

BSc SŴOLEG GYDA BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT

Mae Prifysgol Abertawe yn cael llwyddiant mawr o ran cyflogadwyedd, gan fod 76% o'i graddedigion mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach 6 mis ar ôl graddio. Dyma sut rydym yn cymharu â phrifysgolion eraill.

Prifysgol Caerwysg	76%
Abertawe	76%
Prifysgol Portsmouth	73%
Prifysgol Lerpwl	69%
Prifysgol Caerdydd	64%
Prifysgol Plymouth	63%
Prifysgol Bangor	46%

(Ffynhonnell, Unistats, a gyrchwyd yn Ebrill 2018)

Cyfleusterau'r Biowydderau


AR GAMPWS SINGLETON

Y cyfleusterau gorau ar y tir neu'r môr.

Mae ein cyfleusterau'n cynnwys labordai gwyddoniaeth o'r radd flaenaf gwerth £4.2m; ystod helaeth o offer dadansoddi modern; cyfleusterau meithrin arbenigol ar gyfer ystod o organebau; ystafelloedd tymheredd cyson; tai gwydr; y Ganolfan Ymchwil Dyfrol Cynaliadwy; yr Amgueddfa Sŵolegol; a Chanolfan Ddelweddu sy'n unigryw trwy'r byd o ran arddangos gwybodaeth aml-ddimensiynol o ddata

a gesglir trwy dagiau symudedd anifeiliaid. Cewch fynediad hefyd at ein gofod dysgu cymdeithasol, Gwyddoniaeth Canolog.

Gwneir gwaith cwch ar R.V. Mary Anning, ein llong arolygu dosbarth catamarán 18m newydd sbon, gwerth £1.3m, a ddyluniwyd yn unswydd i ni ac sydd â'r offer arolygu ac ymchwilio diweddaraf ar ei bwrdd.



Lleolir Campws Parc Singleton yng nghanol parcdir aeddfed a gerddi botaneg, gyda golygfeydd dros draeth Bae Abertawe.

ADLONIAN, HAMDDAN A GWASANAETHAU AR Y CAMPWS

- Pentref Chwaraeon
- Llyfrgell
- Siop Ddillad
- Swyddfa'r Post
- Siop Lyfrau
- Banc
- Canolfan Gelfyddydau Taliesin
- Siopau Coffi
- Bar
- Archfarchnad

IECHYD, DIOGELWCH A LLES

- Meddygon
- Deintydd
- Cyngor Ariannol
- Wardeiniaid 24 awr
- Swyddfa Anabledd
- Meithrinfa
- Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr Rhyngwladol



**CAMPWS PARC
SINGLETON**

-  **GWYDDORAU DYNOL AC IECHYD**
-  **Y GYFRAITH A THROSEDEG**
-  **GWYDDONIAETH**
-  **Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU**
-  **MEDDYGAETH**
-  **LLETY MYFYRWYR**
-  **LLYFRGELL PARC SINGLETON**
-  **CANOLBWYNT MYUNI**
-  **TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD**
-  **BWS 24 AWR** (Yn ystod y Tymor)
-  **TY FULTON**
-  **PENTREF CHWARAEON**

Y GORAU O DDAU FYD

Lleolir y Coleg Gwyddoniaeth ar ddau gampws, sef Parc Singleton a Champws y Bae. Gall fod eich pwnc yn troi o gwmpas campws penodol, ond bydd croeso mawr i chi ddefnyddio'r cyfleusterau gwych yn y naill le neu'r llall.

Gall pawb fwynhau'r Pentref Chwaraeon a'r mannau gwyrdd cysgodol ym Mharc Singleton neu'r mannau dysgu cymdeithasol a'r olygfa hyfryd dros y traeth ar Gampws y Bae. Mae'n hawdd teithio rhwng y ddau - mae bysiau rheolaidd a gwnaethom gais llwyddiannus am gynllun

rhannu beiciau newydd, felly mae modd llogi beiciau er mwyn teithio o un campws i'r llall, gyda gorsafocedd docio yn y ddau le. Mae tocyn bws blynyddol yn costio tua £300. Fe'ch cynghorir i beidio â dod â char i'r brifysgol, oherwydd hyn a hyn o le parcio sydd ar y campws ac ar y strydoedd preswyl cyfagos.

Rhagor o wybodaeth ynghylch trafnidiaeth:
www.swansea.ac.uk/estates-and-facilities-management/ourservices/travelandparking

TEITHIAU MAES BIOWYDDORAU

Borneo

Cyfle i archwilio fflora a ffawna y fforest law, mangrofau, rhaeadrau a nentydd dyffryn rhyfeddol Danum, cartref yr orangwtan a'r cornylfin a dysgu mwy am gadwraeth y cynefinoedd bioamrywiol hyn.

Mae'r Ganolfan Faes lle byddwch yn gweithio ynghanol y fforest law fwyaf a mwyaf cyfoethog sydd ar ôl ar dir isel de-ddwyrain Asia, sy'n gartref i fwy na 200 rhywogaeth o goed yr hectar. Mae'r fforest law ei hun yn 130 miliwn o flynyddoedd oed, ac yn gartref i fywyd gwylt prinnaf y wlad, sydd mewn perygl enbyd.



Bioleg Forol Drofannol

TEITHIAU MAES



Puerto Rico

Ydych chi erioed wedi eisiau snorcelu ar riffiau cwrel anhygoel môr y Caribî, gweld y bae bioymoleuol byd-enwog, cael y ffrainc o weld manafï yn y gwylt neu ddod wyneb yn wyneb â baracwda? Mae'r cwrs maes hwn yn darparu'r profiadau hynny a llawer mwy o gyfleoedd anhygoel. Mae'r cwrs, a gynhelir ar Ynys hyfryd Magueyes, yn gyfle gwych i astudio ecoleg forol mewn amgylchedd unigryw a chyffrous ac i fyw, ar yr un pryd, ar ynys baradwysaidd lle ceir heidiau o igwanaod.

Amgylchynir yr ynys gan riffiau cwrel, mangrofau a morwellt toreithiog. Mae manafïaid a dolfiniaid i'w gweld yn gyffredin ac ambell flwyddyn, mae myfyrwyr wedi snorcelu gyda'r manafïaid.

Yn ystod eich tri diwrnod ar ddeg yn y maes, bydd cyfle i chi snorcelu yn y riffiau cwrel, y meysydd morwellt a'r mangrofau, cymryd rhan mewn prosiectau monitro rhyngwladol, cynnal prosiectau ymchwil annibynnol mewn grwpiau a defnyddio cyfleusterau ardderchog gorsaf faes forol Prifysgol Puerto Rico.

Bob blwyddyn, cynigir taith antur i'r trofannau i fyfyrwyr y biowyddorau, er mwyn iddynt gael profiad o'r bywyd môr amrywiol sy'n bresennol yn y riffiau cwrel, y mangrofau a'r meysydd morwellt. Yn ystod y modiwl 20 credyd hwn yn y flwyddyn olaf, bydd y myfyrwyr yn dysgu am y tri phrif gynefin môr trofannol hyn a'r dulliau a ddefnyddir i'w hasesu'n ecolegol. Yn y modiwl, mae'r pwyslais ar fynd â'r myfyrwyr allan i'r maes i ddod wyneb yn wyneb â bywyd y môr. Caiff y myfyrwyr gyfle cyffrous i ddatblygu eu prosiectau ymchwil annibynnol mewn timau ac astudio pynciau mor amrywiol ag ymddygiad pysgod, ehangu'r cwrel a chysylltedd cynefinoedd. Bydd y myfyrwyr yn dysgu sgiliau dwr allweddol yn ystod y modiwl, sef naill ai snorcelu neu sgwba-blymio. Rhoddir sylw yn y modiwl i ddysgu'r myfyrwyr i ddefnyddio'r offer diweddaraf, a gydabyddir yn eang, i asesu'r amgylchedd môr trofannol. Darperir y modiwl hwn ar ynys Puerto Rico yn bennaf, ond fe'i cynhaliwyd yn Jamaica hefyd yn y gorffennol.

Sikkim

Adeiladwyd Gangtok, prifddinas drawiadol Sikkim, ar lethr serth gyda golygfeydd godidog dros Kangchendzonga, y trydydd mynydd uchaf yn y byd. Amgylchynir y ddinas gan fforest law isdrofannol, terasau reis ac mae'n baradwys i ieir bach yr haf a thegeiriau. Mae Gangtok yn adnabyddus fel canolfan i astudio crefydd ac athroniaeth Fwdhaidd.

Bydd cyfle i'r myfyrwyr gyfarfod ag academyddion o Brifysgol Sikkim, mynachod Bwdhaidd, gwleidyddion lleol a Gweinidogion Sikkim, ochr yn ochr â'u gwaith prosiect mewn grwpiau. Mae ffenomen y monswn, bioddaearyddiaeth a bioamrywiaeth, ecodwristiaeth, a mudo yn rhai enghreifftiau o'r gwaith hwn.

Drwy'r cwrs maes hwn caiff y myfyrwyr brofiad unigryw o weithio mewn timau aml-ddisgyblaeth i archwilio'r cysylltiad rhwng amgylcheddau a chymdeithas. Mae'n dod â myfyrwyr Bioleg, Sŵoleg, Daearyddiaeth Ddlynol a Ffisegol at ei gilydd.



Emily Park
BSc BIOLEG

“Mae fy mhrofiad yn Sikkim wedi newid fy mhersbectif fel biolegydd; es i yno er mwyn ehangu fy nealltwriaeth a darganfod man sy'n gyforiog o fioleg ynghanol mynyddoedd mawreddog Himalaia India. Wrth edrych yn ôl, gwelaf fy mod wedi dysgu cymaint mwy na hynny. Cyn i mi sylweddoli, ces fy nhrochi mewn safbwyntiau rhyngddisgyblaethol a'r cydgysylltiad rhyngddynt a'i gilydd, a'r gymdeithas a'r amgylchedd.

Cydiodd y diwylliant ynof a gallaf ddeall bellach pam mae traddodiad mor bwysig i'r bobl. Roedd hyn mor amlwg ym mynachlog Rumteck. Ar ddechrau'r daith, roedd hi'n anodd cofio myfyrio ar brofiadau yn fy llyfr nodiadau maes ond erbyn diwedd yr wythnos, y cyfan y gallwn

feddwl amdano oedd ein bod ni'n edrych ar Sikkim ar adeg benodol o amser pan oedd cydbwysedd brau rhwng trefoli cyflym ar y naill law a chyflwr bregus yr amgylchedd ar y llall, cydbwysedd na fydd yn bod, o bosibl, ymhenn rhai blynyddoedd.



Fel gwyddonydd, mae'r sgiliau a ddysgais yn ystod y daith i Sikkim wedi bod yn amhrisiadwy a byddant yn parhau i fod yn ddefnyddiol trwy gydol fy ngyrfa.

Bydd yr atgofion melyn o Sikkim a'r cyfeillgarwch yn y grŵp, gyda'r darlithwyr a'r myfyrwyr, yn aros gyda mi am byth. Alla i ddim cyfleu'r profiad eithriadol a gefais yn Sikkim; mae'n bendant yn lle yr hoffwn fynd yn ôl iddo a gweld rhagor ohono.”

CYRSIAU'R BIOWYDDORAU

ACHREDIAD

Achredir ein cynlluniau gradd gan y Gymdeithas Fioleg Frenhinol yn dilyn asesiad annibynnol a thrylwyr. Mae'r rhaglenni gradd achrededig yn cynnig sylfaen academaidd gadarn o ran gwybodaeth a sgiliau allweddol biolegol, ac yn paratoi graddedigion sy'n diwallu anghenion cyflogwyr. Mae'r meini prawf achredu yn galw am ddarparu tystiolaeth bod graddedigion o'r rhaglenni achrededig yn bodloni setiau o ddeilliannau dysgu a ddiffiniwyd, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y pwnc, gallu technegol a sgiliau trosglwyddadwy.



Royal Society of
Biology



CÔD UCAS: C104
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL:
ABB - BBB

BSc BIOLEG

Dyluniwyd y cynllun hwn i ddarparu dealltwriaeth eang o themâu bioleg fodern. Mae'n ddelfrydol ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd am gael cynllun gradd cynhwysfawr ac integredig gyda phwyslais ar y gwyddorau ecolegol.

Mae'r cwrs yn cynnig ystod ardderchog o Bynciau i'w hastudio yn y labordy ac yn y maes lle gall myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau ymarferol a chael ystod eang o fodiwlau i ddewis ohonynt, fel bioleg folecwlaid ac esblygol, amrywiaeth ac ymddygiad anifeiliaid, ecoleg forol a thiol, imiwnoleg, ffisioleg anifeiliaid, sgiliau proffesiynol yn y maes ac yn y labordy. Cewch gyfle hefyd i fynd ar gyrsiau maes preswyl sy'n ymwneud yn benodol â'r radd yng Nghanolfan Maes Orierton, Sir Benfro, mannau eraill yn Aberhonddu a Phenrhyn Gŵyr yma yng Nghymru, a theithiau rhyngwladol i Sikkim, Puerto Rico, Borneo neu Jamaica.



CÔD UCAS: C160
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL:
ABB - BBB

BSc BIOLEG FOROL

Mae'r cwrs BSc Bioleg Forol yn integreiddio ymdriniaeth eang o egwyddorion biolegol â bioleg ac ecoleg organebau môr. Mae'n ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb arbennig yn y creaduriaid sy'n byw ar hyd ein glannau ac yn ein cefnforoedd.

Mae hwn yn gwrs tra ymarferol, sy'n seiliedig ar waith maes, gyda phob myfyrwr ail flwyddyn yn derbyn hyfforddiant ar y môr. Hefyd, caiff myfyrwyr ystod o fodiwlau i ddewis ohonynt, a allai gynnwys plancton morol a chefnforeg, ecosystemau morol, pysgodeg, infertebratau'r môr, sgiliau proffesiynol mewn bioleg forol a chadwraeth adnoddau dyfrol.

Mae ein lleoliad unigryw ger yr arfordir yn golygu bod gennym fynediad hwylus at ystod eang o gynefinoedd astudio, gan gynnwys glannau creigiog agored, creigiau serth sy'n amgáu baeau cysgodol, morfeydd heli a fflatiau llaid aberol. Bydd myfyrwyr hefyd yn mynd ar gwrs maes preswyl ac yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cwrs maes rhyngwladol i astudio rifiau trofannol. Mae lleoliadau diweddar wedi cynnwys Puerto Rico a Jamaica.



CÔD UCAS: C300
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL:
ABB - BBB

BSc SŴOLEG

Mae'r cynllun BSc Sŵoleg yn integreiddio dealltwriaeth eang o egwyddorion biolegol gyda sylw arbennig ar anifeiliaid yn eu hamgylcheddau naturiol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb arbennig mewn astudio ymddygiad ac ecoleg anifeiliaid.

Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle heb ei ail i'n myfyrwyr astudio ymddygiad anifeiliaid, ecoleg a chadwraeth mewn amryw o amgylcheddau naturiol, gan gynnwys Penrhyn Gŵyr. Mae Penrhyn Gŵyr yn gyforiog o gynefinoedd arfordirol, cynefinoedd dŵr croyw a chynefinoedd tirol. Mae'n lle unigryw i fyfyrwyr fanteisio ar y cynefinoedd amrywiol yn yr ardal, ac mae'n gartref i lawer o rywogaethau, gan gynnwys gwiberod, dyfrgwn a thegeirianau. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys glannau creigiog, aberoedd tywodlyd, glaswelltiroedd niwtral a choetiroedd hynafol. Gall myfyrwyr archwilio a datblygu dealltwriaeth fanwl ac unigryw o themâu sŵolegol pwysig, gan gynnwys amrywiaeth, ffisioleg, tacsonomeg, ecoleg, ymddygiad a chadwraeth anifeiliaid. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn cwrs maes preswyl ac yn dilyn modiwl sgiliau proffesiynol mewn ecoleg neu gwrs maes rhyngwladol yn Borneo neu ym mynyddoedd yr Himalaia.



CÔD UCAS: C300
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL:
ABB - BBB

BSc GWYDDORAU BIOLEGOL

GYDAG ARBENIGEDD WEDI'I OHIRIO

Mae'r radd BSc Gwyddorau Biolegol gyda dewis wedi'i ohirio yn cynnig amrywiaeth ardderchog o bynciau i'w hastudio yn y labordy ac yn y maes, gyda phwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau ymarferol allweddol.

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr sydd heb wybod eto ai mewn bioleg, sŵoleg neu fioleg forol y maen nhw am arbenigo. Cynigir ystod amrywiol ac ysgogol o fodiwlau ym Mlwyddyn 1, fel bioleg folecwlaid ac esblygol, amrywiaeth anifeiliaid, bioleg celloedd a microbiolog, ymddygiad ac ecoleg. Yna, bydd myfyrwyr yn penderfynu pa radd i'w hastudio a bydd cyfle iddynt astudio pynciau wedi'u harwain gan ymchwil, gan gynnwys ecoleg a chadwraeth, cyrsiau maes preswyl lleol a rhyngwladol, sgiliau proffesiynol yn y maes ac yn y labordy, microbiolog, ecoleg folecwlaid, imiwnoleg ac ecosystemau morol.



CÔD UCAS: C101
4 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: CCD

BSc BIOLEG GYDA BLWYDDYN SYLFAEN INTEGREDIG

Mae'r cynllun BSc Bioleg gyda Blwyddyn Sylfaen Integredig yn addas i ymgeiswyr sydd heb y cefndir angenrheidiol i gael mynediad i Flwyddyn 1.

Mae'n cynnig cyfle i fyfyrwyr ddatblygu'r ddealltwriaeth wyddonol a rhifyddol hanfodol er mwyn cwblhau gradd yn y Biowyddorau yn llwyddiannus. Ar ddiwedd y flwyddyn sylfaen mewn Bioleg, bydd myfyrwyr yn camu ymlaen i un o'n tri chynllun gradd Anrhydedd Sengl achrededig: BSc Bioleg, BSc Bioleg Forol neu BSc Sŵoleg. Bydd modiwlau'r flwyddyn sylfaen yn paratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd fel gwyddonwyr biolegol ac yn cynnwys pynciau fel bioleg sylfaenol, dadansoddi data a thechnegau mewn ecoleg.

CYNLLUNIAU BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT



C152
**BSc BIOLEG GYDA
BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT**
(4 blynedd)

C424
**BSc BIOLEG FOROL GYDA
BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT**
(4 blynedd)

C384
**BSc SŴOLEG GYDA
BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT**
(4 blynedd)

Mae ein cynlluniau gradd Blwyddyn mewn Diwydiant yn ymgorffori lleoliad diwydiannol gyda chyflogwr neu sefydliad mewn sector perthnasol, yn lleol, yn genedlaethol, neu mewn gwlad dramor. Bydd hyn nid yn unig yn helpu myfyrwyr i gymhwyso eu gwybodaeth, ond hefyd yn caniatáu iddynt ddatblygu cysylltiadau â chyflogwyr posibl yn y dyfodol.

CYNLLUNIAU BLWYDDYN DRAMOR

C105
**BSc GWYDDORAU
BIOLEGOL GYDA
BLWYDDYN DRAMOR
(A DEWIS WED'I
OHIRIO)**
(4 blynedd)

C106
**BSc BIOLEG GYDA
BLWYDDYN
DRAMOR**
(4 blynedd)

C107
**BSc BIOLEG FOROL
GYDA
BLWYDDYN
DRAMOR**
(4 blynedd)

C301
**BSc SŴOLEG GYDA
BLWYDDYN
DRAMOR**
(4 blynedd)

Ar ein cynlluniau Blwyddyn Dramor, bydd cyfle i chi dreulio blwyddyn dramor yn un o'n sefydliadau partner. Mae hwn yn gyfle ardderchog i brofi diwylliant gwahanol ac, yn dibynnu ar y cyrchfan, i ddatblygu sgiliau iaith gwerthfawr. I gael rhagor o wybodaeth am astudio dramor, ewch i:

www.swansea.ac.uk/international/opportunities

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch ein cyrsiau a'n gofynion mynediad, ewch i'n gwefan:

www.swansea.ac.uk/biosci



April Hollamby

**BSc BIOLEG FOROL GDYDA
BLWYDDYN SYLFAEN
INTEGRIDIG**

“Mae astudio Bioleg Forol fel myfyrwr ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn antur y byddaf yn ei chofio am byth.

Gyda darlithiau difyr ar bynciau rhyfeddol, arbrofion gwahanol yn y labordy a gwaith maes cyffrous yn lleol ac mewn gwledydd tramor, mae'r radd hon wedi bod yn gyfle gwych i ddatblygu gwybodaeth, profiad a sgiliau Bioleg Forol.

Dechreuais gyda blwyddyn sylfaen ac er bod hynny'n golygu astudio am flwyddyn ychwanegol ym Mhrifysgol Abertawe, roedd yn gyfle i ailadrodd hen sgiliau yn ogystal â dysgu technegau gwyddonol newydd a mwy datblygedig. Roedd amrywiaeth o fodiwlau hefyd a oedd yn ddiddorol i mi, ac yn golygu, yn y pen draw, fod gennyf fwy o hyder yn

fy ngallu i berfformio ar lefel uwch yn fy ngradd bioleg forol.

Roedd blwyddyn gyntaf fy ngradd yn gyfle gwych i ddarganfod ym mha feysydd o fioleg yr oedd gen i ddiddordeb. Yn y pen draw, gwelais fy mod i'n mwynhau'r gwaith maes a wnaethom ar draethau o gwmpas Abertawe a Gŵyr, yn edrych ar rywogaethau rhynglanwol, a datblygais werthfawrogiad newydd o amrywiaeth anifeiliaid - ac algae, oedd yn annisgwyl! Hefyd, tua diwedd y flwyddyn, cadarnhaodd taith ar long y Brifysgol, R.V. Noctiluca, mai bioleg forol oedd y llwybr i mi oherwydd, ar ôl bwrw'r rhwyd ychydig o weithiau, roeddwn i'n llawn cyffro i ddarganfod y creaduriaid môr lleol yn y bae!

Yn ystod yr ail flwyddyn, mae'r radd Bioleg Forol yn canolbwyntio'n llwyr ar bynciau Bioleg Forol ac yn dechrau gyda thaith breswyl i Ganolfan Faes Oriellon. ►

“

ROEDDWN I'N LLAWN CYFFRO I DDARGANFOD Y FFAWNA FOROL LEOL YN Y BAE!

”

Hon oedd yr wythnos pan oeddem yn dod i adnabod cyd-fyfyrwyr yn well ond hefyd yn teimlo bron fel biolegwyr morol profiadol wrth i ni adrodd enwau Lladin y cramenogion, molysgiaid, pysgod, infertebratau ac algae lleol yn ribidires! Fy hoff ran o'r daith hon oedd defnyddio rhwydi sân yn y gwyll, oedd yn waith cynhesach nag a feddyliech, yn ogystal â gweld gwllithod môr a'r sepiola atlantica (ystifflogod bach), am y tro cyntaf!

Mae'r darlithwyr yn gwneud gwaith rhyfeddol i ysbrydoli myfyrwyr ynghylch popeth, o esblygiad pysgod i nodweddion rhyfeddol infertebratau'r môr a'r ecosystemau sy'n gartref iddyn nhw. Uchafbwynt arall yr ail flwyddyn oedd bod

llawer o waith cwch, oedd yn golygu defnyddio offer pysgota go iawn a darganfod rhywogaethau doeddwn i erioed wedi'u gweld o'r blaen, fel y llamhidydd a morgathod. Mae'r drydedd flwyddyn yn dechrau gyda phrosiect traethawd estynedig, lle cewch ddewis testun yr hoffech ei astudio. Er enghraifft, testun fy nhraethawd estynedig i oedd effaith seinyddion atsain ar ymddygiad morloi llwyd ger Penpyrod, Rhossili. Roedd hwn yn gyfle i mi ddatblygu fy niddordeb mewn ymddygiad anifeiliaid mawr y môr a mwynhau gweithio ar y llong hefyd!

Mae'r drydedd flwyddyn hefyd yn rhoi cyfle i chi ddewis modiwlau am y flwyddyn, fel y newid yn yr hinsawdd, bioleg begynol

ac anifeiliaid y môr a'u symudiadau. Mae cyfle hefyd i ddilyn cwrs maes rhyngwladol, a gynhaliwyd eleni (2018) yn labordy morol Discovery Bay, Jamaica. Roeddwn wedi edrych ymlaen at y daith hon ers fy Niwrnod Agored ym Mhrifysgol Abertawe ac roedd hi'n sicr yn werth aros amdani!

Roedd yr ecosystemau, sy'n cynnwys morwellt a riffiau cwrel, yn rhoi digonedd o brofiad i ni ddysgu sut roedd arolygu'r cynefinoedd hyn a gweld pysgod lleol a rhywogaethau rhyfeddol fel y baracwda mawr, y forgath adeiniog a'r forgath ddu i enwi ychydig yn unig!

Gan fy mod i'n aelod o glwb sgwba-blymio Prifysgol Abertawe (SUSAC) ers dwy flynedd, rydw i wedi rhannu fy mhrofiadau o'm gradd Bioleg Forol gyda myfyrwyr eraill. Mae'r clwb sgwba-blymio, yn arbennig, yn ffordd wych o gyfuno bywyd cymdeithasol Prifysgol Abertawe ag archwilio'r ardaloedd lleol, a dysgu eraill am y pynciau sy'n cael sylw yn y radd Bioleg Forol! ”



Rob Will

**BSc BIOLEG GYDA
BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT**

Yn fy flwyddyn gyntaf, roedd cymysgedd da iawn o waith ymarferol yn y labordy ac yn y maes ar draws y modiwlau. Roedd y cwrs yn sicrhau bod pawb ar yr un lefel, fel ein bod ni i gyd yn gallu gwneud yn dda, beth bynnag oedd ein hysgol neu ein llwybr i'r brifysgol. Roedd 'polisi drws agored' y darlithwyr yn help mawr pan fyddai problem gen i, gan eu bod nhw ar gael am lawer o amser bron bob dydd i drafod materion. Mae hyn yn cwmparu mwy na phroblemau academaidd yn unig gan fod staff y swyddfa weinyddol yno bob amser i helpu gyda materion personol hefyd. Y tu allan i'r darlithiau a'r gwaith ymarferol, mae cynifer o glybiau a chymdeithasau i ymwneud â nhw, a myfyrwyr sy'n rhedeg pob un, felly gallwch ymuno â'r pwyllgorau a helpu i'w trefnu eich hun os byddwch yn dymuno! Os byddwch am ganolbwyntio mwy ar eich pwnc, mae'r Gymdeithas Cadwraeth ac Ecolleg yn lle da i ddechrau, neu gallwch wirfoddoli i helpu

gyda gwaith parhaus Tim Ymchwil Ecolleg Abertawe, er enghraifft.

Yn olaf, hoffwn sôn am y cymorth a gefais gan yr adran i gynllunio fy ngyrfa yn y dyfodol. Roeddwn i'n gwybod fy mod am fynd i'r byd academaidd ac ymchwil, ac rydw i wedi llwyddo i gael lle ar Raglen Hyfforddiant Doethurol Prifysgol Caergrawnt, wedi'i gyllido gan y Cyngor Ymchwil Feddygol. Roedd y cymorth a gefais gan fy nhwitor a chan academyddion eraill mor bwysig; fe wnaethon nhw hwyluso pob cam o'r llwybr.

Rwy'n argymhell yn bendant eich bod yn dod i Ddiwrnod Agored, gan fod gweld y lle a chyfarfod â'r adran wedi fy helpu i wneud Abertawe yn ddewis pendant. Byddaf yn edrych yn ôl bob amser ar fy amser fel biolegydd yn Abertawe fel cyfnod gorau fy mywyd hyd yn hyn, ac rwy'n gobeithio y cewch chi brofiad gwych yma fel y gwnes i. "

Emmanuel Lourdes

BSc SŴOLEG

"Dewisais i Abertawe ar ôl ymchwilio ar-lein, yn enwedig trwy wefannau fel Times Higher Education a Thablau Prifysgolion y Byd QS. Roedd gwefan Prifysgol Abertawe yn ddefnyddiol hefyd o ran cynnig gwybodaeth bwysig ynglŷn â dewis modiwlau a chostau'r ffioedd dysgu, a wnaeth fy helpu i wneud fy newis.

Roedd symud i Abertawe yn brofiad eithaf dirdynnod oherwydd doeddwn i erioed wedi teithio dramor ar fy mhen fy hun o'r blaen ac roeddwn i'n wirioneddol falch fod y Brifysgol yn cynnig gwasanaeth bws gwennol i gludo myfyrwyr sy'n cyrraedd maes awyr Heathrow i gampws y Brifysgol. Yn gyffredinol, roedd e'n brofiad cyffrous ond esmwyth!

Ces i groeso cynnes yn bendant! Mae'r bobl yma yn Abertawe yn gwrtais ac yn agored, a wnaeth ganiatáu i mi addasu'n well i'm hamgylchedd newydd. Hefyd fe wnaeth Ffair y Glas, yn ystod yr wythnos gynefino, fy helpu i gyfarfod â phobl newydd ac ymuno â chymdeithasau amrywiol.

Mae llawer o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe hefyd a does gen i ddim cwynion o gwbl!

Hyd yn hyn, rydw i wedi bod ar deithiau maes sy'n gysylltiedig â'm cwrs, fel ein taith i Fae Oxwich yn y flwyddyn gyntaf a modiwl cwrs maes Dale Fort ym mis Medi y llynedd. Fe wnes i fwynhau'r ddwy daith faes yn fawr gan ei bod hi'n braf cael gadael y ddarlithfa o'r diwedd a rhoi'r damcaniaethau roeddem wedi'u dysgu ar waith yn y gwyllt!

Rwy'n mwynhau fy nghwrs yn fawr iawn. Wrth gwrs, mae rheoli'r gwaith cwrs a'r adolygu yn anodd ar adegau, ond rydw i wrth fy modd gyda'r hyn rwy'n ei ddysgu yma. Mae'r darlithwyr yma wedi bod yn addysgwyr cyfeillgar a brwd, ac mae'r modiwlau eu hunain yn gyffrous ac yn drefnus. Rwy'n Ysgrifennydd Cymdeithas Malaysia, sydd wedi rhoi boddhad mawr a llawer o hwyl i mi hyd yn hyn! Rydw i hefyd wedi ymwneud â'r Gymdeithas Cerdoriaeth



Fyw a'r Gymdeithas Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn fy flwyddyn gyntaf. Roedd y sesiynau jamio ac adrodd barddoniaeth ym mar Mozart's yn bendant yn brofiadau cofiadwy!

Pan na fyddaf yn astudio, rwy'n chwarae'r gitâr, yn darllen llyfrau, yn gwyllo ffilmiau ac yn ymhél ag ysgrifennu creadigol. Rydw i wir yn mwynhau genres arswyd/ias a chyffro/ffuglen wyddonol ac rwy'n hoff iawn o gyfryngau llyfrau comig ac anime yn gyffredinol. Mae gen i ddi-ddordeb mawr hefyd mewn anifeiliaid a natur, a dyna pam rwy'n astudio gradd Swleg.

Ar ôl cwblhau fy ngradd, rwy'n bwriadu astudio rhaglen Meistr neu ddechrau gweithio yn y Deyrnas Unedig neu yn ôl ym Malaysia. Fy nod ar hyn o bryd yw datblygu gyrfa fel sŵlegydd maes; efallai mai fi fydd Syr David Attenborough nesaf Malaysia. "

DEWISIADAU AC
YSGORIAETHAU
CYMRAEG

Mae ein cynlluniau gradd mewn Bioleg, Sŵoleg a Bioleg Forol yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaethau Cymhelliant, gan ein bod yn cynnig 40 credyd trwy'r Gymraeg ar bob lefel. Caiff myfyrwyr sy'n bwriadu astudio o leiaf 33% o'u pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg wneud cais am yr ysgoloriaeth.

Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar bynciau gwyddonol yn y biowyddorau yn sgil allweddol mae nifer cynyddol o gyflogwyr yn gofyn amdano, ac mae Prifysgol Abertawe mewn sefyllfa berffaith i fanteisio ar hynny. Mae'r ystod o bynciau sy'n cael eu dysgu yn Gymraeg yn cynnwys pynciau craidd fel Amrywiaeth a Ffisioleg Anifeiliaid, Ecoleg ac Ymddygiad, a Bioleg Fertebratau. Mae modiwlau fel y rhain yn rhan ganolog o ddeall y byd naturiol; bydd cael eich dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwella eich rhagolygon gradd a gyrfaedd yn y biowyddorau.

Rhagor o wybodaeth ynghylch ysgoloriaethau: www.colegcyfraeg.ac.uk/cy/astudio/cymorthariannol/ysgoloriaethcymhelliant

CYFLOGADWYEDD
A DEWISIADAU
GYRFA

Mae ein hadran Fiwyddorau yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gyrfaedd y Brifysgol i sicrhau eich bod yn datblygu ac yn ehangu eich sgiliau cyflogadwyedd. Byddwch nid yn unig yn dysgu sut mae ysgrifennu CV effeithiol ond hefyd yn cael anogaeth i roi cynnig ar brofiad gwaith, gwirfoddoli, interniaethau a lleoliadau gwaith.

Mae ein staff yn gweithio gydag unigolion a sefydliadau ar draws y byd ac yn y Deyrnas Unedig a gallant helpu rhai myfyrwyr i hwyluso lleoliadau sy'n seiliedig ar waith neu ymchwil mewn gwlad dramor.

Caiff myfyrwyr ymuno â chlybiau a chymdeithasau hefyd, yn ogystal â'r rhaglen GradIntel sy'n cysylltu ein graddedigion dawnus â chyflogwyr.

Cewch fudd hefyd o weithio gydag un o'r sefydliadau canlynol fel rhan o'ch prosiect ymchwil:

- Ysbyty Adar Gŵyr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Grŵp Amffibiaid ac Ymlusgiaid De Cymru
- Ymddiriedolaeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid y Deyrnas Unedig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Grŵp Llygod Pengrwn y Dŵr Llanelli
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
- Sŵ Caer
- Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
- Canolfan Ymchwil Fiolegol Bimini, Y Bahamas
- Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir



Carly Green

BSc SŴOLEG
LLUOSOGWR PLANHIGION, GARD
FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

“Bûm i’n ddigon ffodus i gael goruchwyliwr gwych yn Abertawe a oedd yn cadw ei ddarws ar agor bob amser i fyfyrwyr pa mor brysur bynnag yr oedd. Yn ystod un o’r cyfarfodydd anffurfiol hyn, dros banded o de, dywedodd wrthyf am raglen brentisiaeth a oedd yn cael ei sefydlu yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gerllaw. Ers y sgwrs honno, rydw i wedi cwblhau’r brentisiaeth mewn garddwriaeth fotanegol a ches fy mhenodi wedyn gan yr Ardd i arwain prosiect cadwraeth rhywogaethau cynhenid Cymru, yn ogystal â thyfu planhigion o gynefinoedd sydd â hinsawdd Fediteranaidd ym mhedwar ban byd. Bellach, rwy’n cydweithio gyda gerddi botaneg ar draws y Deyrnas Unedig i gadw rhai o rywogaethau prinnaf y Deyrnas Unedig ac Ewrop yn ddiogel.”

Llun © James Davies, Ffotograffydd y Wasg, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

MAE GYRFAOEDD EIN
GRADDEDIGION YN
CYNWYS:

- Ecologydd (Jacobs Engineering a CSA Environmental)
- Swyddog Cyflenwi (Y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a’r Biowyddorau)
- Swyddog Prosiect (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid)
- Swyddog Hydrometreg a Thelemetreg (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Tacsonomegydd Benthig (Oceanology Ltd)
- Swyddog Addysg a Bywyd Gwylt (Cyngor Bwrdeistref Ipswich)
- Technegydd Cnydau (Humber Growers)
- Ceidwad Anifeiliaid (All Things Wild)
- Gweithiwr Cysylltiol Rheoli Ansawdd (Amgen Biovex Ltd)
- Swyddog y Llynges Frenhinol (Coleg y Llynges Frenhinol, Britannia)
- Cynorthwy-ydd Ymchwil (TRP Research)

PROFFILIAU
CYN-FYFYRWYR



Owen Bidder

BSc SŴOLEG / PHD / YMCHWILYDD
ÔL-DOETHUROL, PRIFYSGOL CALIFFORNIA

“Fe wnaeth fy astudiaethau ym Mhrifysgol Abertawe agor fy ngyrfa i gyfleoedd byd-eang. Yn 2014, derbyniais radd PhD a ariannwyd yn llwyr trwy Ysgoloriaeth Sgiliau Economi Wybodaeth yr Undeb Ewropeaidd, ac ni fyddwn i byth, fwy na thebyg, wedi gallu cael gradd uwch heb y cymorth hwnnw. Gyda’r cymhwyster hwn, llwyddais i gael Cymrodoriaeth Ôl-ddoethurol Alexander von Humboldt wedyn er mwyn ymchwilio i’r llwynog coch yn yr Almaen. Bellach, rwy’n gwneud ymchwiliad ym Mhrifysgol Califfornia, Berkley, gan astudio’r cydadweithiau rhwng yr elc a’r blaidd yn Ecosystem Ehangach Yellowstone. Ni fyddai dim o’r uchod wedi bod yn bosibl heb y cymorth a gefais yn Abertawe.”



Charlotte Davies

BSc BIOLEG, PHD YN Y GWYDDORAU BIOLEGOL,
YMCHWIL ÔL-DOETHUROL - SEFYDLIAD Y
GWYDDORAU MOROL A LLYNNEG, MECSICO

Dewis astudio BSc Bioleg ym Mhrifysgol Abertawe oedd un o benderfyniadau gorau fy mywyd. Mae Abertawe yn cynnig llawer o gyfleoedd ac roeddwn i’n fyfyrwr brwd. Roeddwn yn aelod o Sgwad Codi Hwyl Swansea Sirens, yn un o swyddogion Cymdeithas y Biowyddorau ac yn un o Lysgenhadon y Biowyddorau ar ddiwrnodau agored UCAS. Fel myfyrwr PhD, cefais fy ethol yn Swyddog Ôl-raddedigion yn Undeb y Myfyrwyr i gynrychioli’r holl fyfyrwyr ôl-raddedig yn Abertawe.

Fe wnaeth darlithwyr brwd Adran y Biowyddorau gynnau fy awch i ddysgu a bu fy nhraethawd estynedig yn sylfaen gadarn i mi o ran ymchwil, a’r hysbrydolodd i barhau i astudio ar gyfer PhD yn Abertawe. Cyhoeddwyd fy ymchwiliad afiechydon cymychiaid mewn cyfnodolion gwyddonol, papurau newydd, cylchgronau a gwefannau ar draws y byd ac rydw i wedi annerch cynadleddau o Aberystwyth i New Orleans.

Rydw i wrth fy modd yn teithio a chefais gyfle i astudio dramor yn ninas Bangalore, India fel rhan o raglen o ymweliadau cyfnewid diwylliannol yn ystod fy nghwrs israddedig. Treuliais amser hefyd yn gweithio yn ninasoedd Boston, yn yr Unol Daleithiau a Charlottetown, Canada wrth astudio ar gyfer PhD. Yn ystod blwyddyn olaf y PhD, cefais fynd i gynhadledd yn ninas Cancún, Mecsico, lle cwrddais â’r goruchwylydd presennol.

Bellach, rwy’n Gymrawd Ymchwil Ôl-ddoethurol yn yr Uned Systemau Riffiau, sy’n rhan o Sefydliad Gwyddorau Morol a Llynneg Prifysgol Annibynnol Genedlaethol Mecsico. Rydw i’n gwneud fy swydd ddelfrydol ac ni fyddai dim o hynny wedi bod yn bosibl heb Brifysgol Abertawe.

Dilynwch flog Charlotte:
www.cedavies72.blogspot.com

YMCHWIL Y STAFF

Mae Adran y Biowyddorau wedi mabwysiadu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac mae'n falch o gyfrannu'n weithredol at eu cyflawni trwy gyfrwng ymchwil sy'n arwain y byd.

Mae gan ein staff gyfoeth o arbenigeddau ac mae llawer ohonynt yn fydwog yn eu maes:

Yr Athro Rory Wilson, Derbynydd Gwobr Rolex a Phrif Ymgynghorydd Gwyddonol cyfres Great Migrations, National Geographic. Rory yw dyfeisydd y tag Dyddiadur Dyddiol nad yw'n fewnwithiol, sy'n monitro symudiadau ac ymddygiad anifeiliaid. Cafodd ei enwi hefyd yn un o 50 arwr cadwraeth mwyaf dylanwadol Prydain gan gylchgrawn BBC Wildlife.

Mae'r Athro Tariq Butt wedi datblygu cynhyrchion cynaliadwy ac ecogyfeillgar



allan o ffyngau i reoli arthropodau sy'n blâu o bwys cymdeithasol economaidd byd-eang. Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnwys nodweddion pleiddiol sy'n gallu rheoli plâu infertebrataidd sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd, iechyd anifeiliaid ac iechyd dynol.

Bu'r Athro Cysylltiol Carole Llewellyn yn canolbwyntio ar ymchwil algaid ar lloesol i helpu i ddarparu datrysiadau ar gyfer heriau byd-eang y newid yn yr hinsawdd, iechyd dynol, bio-ynni, diogelwch bwyd a biotechnoleg ddiwydiannol.

Mae'r Athro Carlos Garcia de Leaniz yn ymchwilio i ddulliau ecogyfeillgar o reoli parasitiaid mewn ffermydd eog gan ddefnyddio pysgod glanhau, datblygu pysgod gwell ar gyfer ymchwil, a rheoli argaeau mewn dulliau ymaddasol er mwyn ailgysylltu ffrydiau ar draws Ewrop.

7 FED YN Y DEYRNAS UNEDIG O RAN

RHAGORIAETH YMCHWIL

Mae gan yr Athro Cysylltiol Mike S. Fowler ddiddordeb mewn deall sut mae amrywio amodau amgylcheddol dros amser a lle yn hidlo trwy'r prosesau biolegol mewn a rhwng rhywogaethau, gan yrru'r newidiadau a welir ym meintiau poblogaethau naturiol. Mae'n cymhwyso'r wybodaeth a gesglir trwy fodelau mathemategol ac ystadegol at boblogaethau yn y labordy a phoblogaethau naturiol, gan ganolbwyntio ar broblemau sy'n ymwneud â chadwraeth a rheoli rhywogaethau ymlledol.

Mae'r Athro Cysylltiol Andrew King yn ecolegydd ymddygiadol. Mae ei grŵp ymchwil - SHOAL - yn astudio'r cysylltiad rhwng ymddygiad unigolion a strwythur a gweithrediad grwpiau a phoblogaethau. Mae'n astudio amryw o anifeiliaid sy'n byw mewn grwpiau, o bysgod ac adar i fwnciod a phob, yn y gwyllt ac yn y labordy. Mae Andrew yn aelod o'r Sefydliad ar gyfer Cymunedau a Bywyd Gwyllt yn Affrica (iCWILD), yn ▶



ninas Cape Town, De Affrica. Mae ei waith yn derbyn sylw yn y newyddion yn aml ac mae'n darparu gweithdai a seminarau yn rheolaidd i'r cyhoedd (e.e. mewn gwyliau gwyddoniaeth) ac i'r sector corfforaethol (e.e. GIG, AXA).

Mae gan yr Athro Cysylltiol Emily Shepard ddiddordeb yn sut mae llifau awyr (hynny yw, popeth o wynt a thyrfedd i ffrydiau ar i fyny) yn effeithio ar adar. Mae hi'n defnyddio tagiau i gofnodi ymddygiad adar yn y gwyllt ac yn cyfuno hynny â gwaith sy'n defnyddio twnel gwynt newydd a ddyluniwyd yn bwrpasol, er mwyn ceisio ateb cwestiynau fel sut bydd adar yn dewis eu llwybrau hedfan.

Mae'r Dr Ines Fürtbauer yn endocrinolegydd ymddygiadol ac mae ganddi ddiddordeb mewn achosion a chanlyniadau, a gwerth ymaddasol amrywiaeth mewn

ymddygiad. Mae'r Dr Fürtbauer yn rhedeg y Labordy Ymchwil Endocrinoleg a sefydlwyd ganddi sy'n arbenigo mewn technegau dadansoddi hormonau trwy ddulliau nad ydynt yn fewnwithiol. Mae'r gwaith yn cynnwys meintoli gwahanol hormonau (e.e. hormonau atgennedlu a hormonau straen) mewn samplau o ddŵr, gwallt, poer a charthion, wedi'i gyfuno ag arsylwi ar ymddygiad amrywiaeth o rywogaethau, o bysgod yn y labordy i brimateiaid gwyllt.


Mae'r Athro Kevin J Flynn yn fiolegydd môr sy'n arbenigwr rhyngwladol mewn ffisioleg plancton, efelychu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, megis ewtroffieiddio ac asideiddio'r cefnforoedd, ar ffyniant algae niweidiol. Mae'n feistr ar herio credoau hir sefydledig ym maes ecoleg plancton morol, gan ddatblygu esboniadau newydd. Mae'n awdur mwy na 160 o

bapurau, ac e-lyfr ynghylch addysgu ecoleg ddeinamig. Mae'n Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Mae'r Athro Kam Tang yn astudio ecoleg plancton a bioddaeargemeg mewn amgylcheddau morol ac amgylcheddau dwr croyw, gan ddefnyddio cyfuniad o arsylwadau yn y maes, arbrofion a gwaith modelu. Mae'n arwain SEACAMS2 Prifysgol Abertawe (a gyllidir yn rhannol gan ERDF) i gynorthwyo gyda datblygu ynni adnewyddadwy'r môr yng Nghymru. Mae'r Athro Tang yn Gymrawd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol ac yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch.

Mae enghreifftiau o feysydd ymchwil pellach yn cynnwys geneteg ac epigeneteg gofal rhiant, sylfaen foleciolaidd ymddygiad chwilio am organebau lletyl ymhlith fectorau arthropodaidd, modelau genetig o imiwnedd cynhenid, egnieg symudiadau adar, macro-ecoleg amddiffyn rhag ysglyfaethwyr, herpetoleg ac esblygiad, deinameg cymunedol ffyngau, canlyniadau gweithredol bioamrywiaeth, cadwraeth crwbod môr, rffiauw cwrwl, morwllt a gwynn, rheoli adnoddau dyfrol, a ynni morol cynaliadwy.

14 LIFE BELOW
WATER



delwedd a ddarperir gan y Cenhedloedd Unedig

CYNGHORI RHAGLEN BLUE PLANET II

Yn 2017, Blue Planet II oedd y rhaglen oedd yn rhy dda i'w cholli. Roedd ymwneud â'r rhaglen yn gyffrous iawn i Adran y Biowyddorau. Cysylltodd fîm ymchwil Blue Planet II â'r Prosiect Morwellt, sef elusen a sefydlwyd gan Dr Richard Unsworth, sy'n academydd Biowyddorau, a dau o'i fyfyrwyr, i awgrymu syniadau ar gyfer y rhaglen.

Gyda chydweithwyr y Mhrifysgol Caerdydd, cyflwynodd fîm Prosiect Morwellt eu syniadau ymchwil. Gofynnwyd iddynt am feysydd morwellt ac, yn benodol, am ymchwil Dr Unsworth i'r cydadweithiau ac ymddygiad 'cyd-hela' rhwng grŵperiaid a'r octopws – sef y tro cyntaf erioed i'r ymddygiad hwn gael ei gofnodi. Rhoddwyd sylw i'r ymddygiad hwn yn y bennod ynghylch y 'Riffiau Cwrel'. Darparodd fîm Prosiect Morwellt gynnwys technegol hefyd a bu'n gwirio ffeithiau'r ffilm.

Dywedodd Richard: "Mae'r bennod ynghylch y 'Moroedd

Gwyrdd' yn ein helpu i werthfawrogi rhyfeddod a phwysigrwydd planhigion morol fel y morwellt. Mae'r ecosystemau bioamrywiol hyn o'r pwys pennaf i'r blaned ddynol ond maen nhw'n dal i wynebu bygythiad ar draws y byd."

Mae Dr Unsworth yn arwain modiwl maes blynyddol yn y Caribî, lle gallwch gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth morwellt.

Mae Prosiect Morwellt yn elusen amgylcheddol sy'n gweithio'n unswydd ar gadwraeth ecosystemau morwellt trwy addysgu, dylanwadu, ymchwilio a

gweithredu. Fe'i crëwyd gyda'r bwriad o droi ymchwil arloesol yn gynlluniau addysg a gweithredu effeithiol er budd cadwraeth, trwy gydweithio â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill ym mhob rhan o'r byd. Fîm o wyddonwyr morwellt ymroddedig, sy'n gweithio i amddiffyn morwellt, a thrwy wneud hynny, yn cefnogi cadwraeth forol ehangach. Trwy'r gwaith cadwraeth hwn, mae staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe yn helpu i gyflawni Nod Datblygu Cynaliadwy 14 y Cenhedloedd Unedig, sef Bywyd o dan y Dŵr.

Y GANOLFAN YMCHWIL DYFROL CYNALIADWY (CSAR)

Rydym ni'n ymchwilio i ddulliau cynaliadwy o fanteisio'n llawn ar adnoddau dyfrol ar bob lefel droffig, o ficro-organebau fel algae i bysgod cregyn a physgod esgyll o bwys masnachol, gan ddefnyddio modelu arbrolol a dulliau yn y maes.

Mae ein hymchwil yn llywio gwaith rheoli adnoddau dŵr (ecosystemau dŵr croyw, arfordirol a dŵr agored; pysgodfeydd), dyframaethu cynaliadwy, ymchwil fiotechnegol, fiofeddygol a thrawsfudol, a dyfodol carbon isel, er mwyn cefnogi economi gylchol. Mae cyfleusterau CSAR yn cynnwys systemau arloesol sy'n ailgylchredeg dŵr ar gyfer rhywogaethau dŵr croyw, morol, trofannol a thymherus yn ogystal â nifer o ffotobioadweithwyr algaid.

1 NO POVERTY

2 ZERO HUNGER

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

4 QUALITY EDUCATION

5 GENDER EQUALITY

6 CLEAN WATER AND SANITATION

7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY

8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH

9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE

10 REDUCED INEQUALITIES

11 SUSTAINABLE CITIES AND COMMUNITIES

12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION

13 CLIMATE ACTION

14 LIFE BELOW WATER

15 LIFE ON LAND

16 PEACE, JUSTICE AND STRONG INSTITUTIONS

17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS

delwedd a ddarperir gan y Cenhedloedd Unedig

Dyddiadau Pwysig O RAN EICH CAIS

MEDI

Ceisiadau UCAS yn agor

HYD/TACH

Dod i ddiwrnod Darganfod Prifysgol Abertawe

15 FED ION

Dyddiad cau Ceisiadau UCAS (ond byddwn yn dal i dderbyn ceisiadau ar ôl y dyddiad hwn)

ION - MEH

Rhagor o gyfleoedd i ymweld ag Adran y Biowyddorau a chwrrd â myfyrwyr a darlithwyr

MAW - MEH

Cyflwyno cais am gyllid a llety

MEDI

Cyrraedd a'r wythnos groeso!



MYFYRWYR RHYNGWLADOL YN Y COLEG

Os byddwch yn fyfyrwr Rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) sy'n astudio Blwyddyn Sylfaen mewn Gwyddoniaeth, bydd eich gradd yn dechrau yn y Coleg.

Mae'r Coleg yn cynnig llwybrau academiaidd ym Mhrifysgol Abertawe sy'n arwain at raddau israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r Coleg yn darparu grwpiau addysgu llai, ac athroniaeth addysgol gefnogol â gwedd bersonol. Pan fyddwch yn astudio yn y Coleg, byddwch yn fyfyrwr llawn-amser yn y Brifysgol o'r cychwyn cyntaf.

Mae pob cwrs ar gael â dewis o ddyddiadau dechrau a hyd cyrsiau, yn dibynnu ar eich cymwysterau a'ch medrusrwydd mewn Saesneg.

Mae gan y Coleg adeilad pwrpasol newydd sbon ar Gampws y Bae ger y traeth. Bydd neuadd breswyl newydd â 411 o welyau ar gyfer myfyrwyr y Coleg yn unig, hefyd ar Gampws y Bae.

Rhagor o wybodaeth:
www.swansea.ac.uk/the-college



YMWELD Â PHRIFYSGOL ABERTAWE *a'ch cynnig*

Mae'n bwysig dros ben eich bod yn dewis y brifysgol a'r cwrs cywir. Ar ôl ymgeisio, cewch wahoddiad i ddod i Ddiwrnod Darganfod Prifysgol Abertawe.

Bydd cyfle i chi siarad â'r staff academiaidd a myfyrwyr a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mae'n ffordd wych o gael rhagflas o fywyd yma ym Mhrifysgol Abertawe a bydd cyfle i chi gael sgwrs un-i-un gyda'r darlithwyr a thrafod eich cynnig. Cofiwch fod ein cynigion yn gallu bod yn hyblyg ac felly bydd hwn yn gyfle i chi drafod eich amgylchiadau personol neu ofyn cwestiynau am y cwrs ei hun.



YSGORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae Prifysgol Abertawe yn dyfarnu nifer o Ysgoloriaethau Rhagoriaeth, gwerth £3000 dros dair blynedd, i'r holl fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig* sy'n cael AAA yn eu harholiadau Safon Uwch (neu gyfwerth); Ysgoloriaethau Teilyngdod, gwerth £2000 dros dair blynedd, i'r holl fyfyrwyr sy'n cael AAB yn eu harholiadau Safon Uwch (neu gyfwerth).

Edrychwch ar www.swansea.ac.uk/scholarships i gael yr wybodaeth a'r telerau ac amodau diweddaraf.

*Gellir dyfarnu'r ysgoloriaeth i fyfyrwyr o'r UE hefyd, ewch i'r wefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

DEALL 4 Termau

Pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn Prifysgol, byddwch yn gweld termau sydd o bosib anghyfarwydd. Rydym wedi ceisio dileu rhai o'r pryderon trwy lunio canllaw 'Deall y Termau' sy'n egluro'r termau a ddefnyddir amlaf.

Addasiad: Os bydd eich graddau yn well na'r disgwyl ac yn rhagori ar y graddau yn eich cynnig amodol, cewch 'addasu' a dewis lle gwahanol.

Newid cynnig y cwrs: Gall eich Prifysgol neu Goleg ystyried gwneud hyn os na fyddwch yn bodloni gofynion mynediad eich dewis gwreiddiol.

Dewis: Y cwrs y byddwch yn gwneud cais amdano. I ddechrau, bydd UCAS yn caniatáu i chi wneud cais am 5 cwrs neu lai.

Clirio: Mae Clirio yn gyfle i fyfyrwyr chwilio am le ar gwrs ar ôl 30 Mehefin, mewn unrhyw Brifysgol neu Goleg os na chynigiwyd lle iddynt yn barod.

Cynnig Amodol: Llongyfarchiadau, rydym wedi rhoi Cynnig Amodol i chi. Ystyr hyn yw bod gennych le os byddwch yn bodloni'r amodau, sydd fel arfer yn golygu cyflawni graddau penodol neu bwyntiau tariff yn eich arholiadau.

Cynnig Diamod: Llongyfarchiadau, mae gennych Gynnig Diamod. Ystyr hyn yw bod gennych chi le gyda ni!

Cadarnhad: Penderfyniad gan y Brifysgol neu'r Coleg, unwaith mae canlyniadau'r arholiadau wedi'u cyhoeddi, i dderbyn neu wrthod y cais.

Gohirio: Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sydd am ddechrau yn nes ymlaen. Bydd UCAS yn caniatáu i chi ohirio ddwywaith cyn gorfod ailymgeisio.

Gofynion Mynediad: Y rhain yw'r graddau rydym yn argymhell bod myfyrwyr yn eu cael i ymuno â'n cyrsiau. Bydd gan bob cwrs ei ofynion ei hun. Mae'r rhain i gyd i'w gweld ar ein gwefan.

Dewis Pendant: Hwn fydd eich dewis cyntaf o ran prifysgol, felly gofawch roi'r lle yma i Brifysgol Abertawe!

Dewis Yswiriant: Eich ail ddewis o ran prifysgol.

Tracio: System tracio ar-lein UCAS lle gallwch weld cynnydd eich cais.



GWYBODAETH BWYSIG - DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA

Mae'r neges ganlynl yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Darllenwch y neges cyn defnyddio'r llyfryn hwn.

Argraffwyd y llyfryn hwn yng ngwanwyn 2018. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni a'r modiwlau israddedig yn y Bowyddorau y mae Prifysgol Abertawe yn bwriadu eu rhedeg ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu cychwyn yn y brifysgol yn hydref 2019.

Gwnaed pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol ac yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd newidiadau, er enghraifft, i raglenni, lleoedd astudio, cyfleoedd am leoliad, cyfleoesterau neu ffioedd yn angenrheidiol am resymau staffio, ariannol, rheoleidiol ac academaidd dilyn.

Byddwn yn ymdrechu i wneud cyn lleied â phosibl o newidiadau bob amser ac i roi gwybodaeth briodol i ddarpar fyfyrwyr. Bydd yr wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn cael ei diweddaru bob chwarter yma: www.swansea.ac.uk/undergraduate-programme-changes/ ac ar y tudalennau cwrs ar-lein yma: www.swansea.ac.uk/geography/undergraduate

UCAS: Ystyr hyn yw Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau yn y Deyrnas Unedig. Mae pob cais yn y Deyrnas Unedig yn mynd trwy UCAS.

Israddedig: Mae hyn yn berthnasol i bob gradd lefel gyntaf.

Myfyriwr Israddedig: Pan ddechreuwch yn y Brifysgol, byddwch yn fyfyrwr Israddedig tra byddwch yn astudio Gradd Israddedig.

CYSYLLTWCH Â NI

Y Coleg Gwyddoniaeth
Campws Singleton,
Prifysgol Abertawe,
SA2 8PP Cymru, Y Deyrnas Unedig

Rhif ffôn: **+44 (0)1792 295111**

E-bost: **study@abertawe.ac.uk**

 **@swanscience @SUMarineBiology**

 **SwanseaScience**

I gael gwybodaeth am dderbyn myfyrwyr
o'r Deyrnas Unedig, e-bostiwch:
admissions@abertawe.ac.uk

I gael gwybodaeth am dderbyn myfyrwyr
rhyngwladol, e-bostiwch:
international.admissions@abertawe.ac.uk



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

www.swansea.ac.uk/biosci